**Elin Jones AS, Llywydd**
Senedd Cymru
**Elin Jones MS, Presiding Officer**
Welsh Parliament

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Ein cyf: EJ/ES

28 Hydref 2020

Annwyl Jayne,

**Cofrestru buddiannau'r Aelodau**

Mae'r Comisiynydd Safonau Dros Dro wedi cynnig newidiadau i ffurflen cofrestru buddiannau'r Aelodau. Byddai'r newidiadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau, wrth gofrestru rhodd dan gategori 4 o'r ffurflen, gadarnhau a fyddai gwerth y rhodd dros y trothwy a nodwyd, sef 0.5 y cant o gyflog blynyddol gros yr Aelodau (£338 ar hyn o bryd).

Cynigir y newidiadau yn dilyn awgrym y Comisiynydd Dros Dro na ddylid trin cofrestriadau hwyr sy'n ymwneud â rhodd sy'n cael ei phrisio islaw'r trothwy fel torri'r rheolau ac na ddylid rhoi gwybod amdanynt i'r Comisiynydd dan y protocol sy'n bodoli rhwng y Comisiynydd, y Senedd. a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Byddai'r newidiadau i'r ffurflen yn gymharol syml; cânt eu cyflawni drwy fewnosod cwestiwn ychwanegol dan gategori 4 a fyddai'n annog yr Aelodau i gadarnhau a yw rhodd yn uwch na'r trothwy ai peidio.

Yn unol â'm cyfrifoldebau ar gyfer rhagnodi'r ffurflen cofrestru buddiannau o dan Reol Sefydlog 2.2, fy mwriad yw cyflwyno'r newidiadau hyn cyn gynted â phosibl, a chyfleu hyn i'r Aelodau drwy'r Swyddfa Gyflwyno. Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw adborth neu farn sydd gennych am y cynnig hwn.

Yn gywir,

**Elin Jones AS**
Y Llywydd

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
llywydd@senedd.cymru
0300 200 7403

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
llywydd@senedd.wales
0300 200 7403